OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1476

## Rheoliadau Cig (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol) (Cymru) 2002

**Teitl, cymhwyso, dehongli a chwmpas**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cig (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol) (Cymru) 2002 ac maent yn gymwys i Gymru yn unig.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "cig coch ffres" ("*fresh red meat*") yw cig ffres fel y diffinnir "fresh meat" yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Cig Ffres;

(b) mae i "cig dofednod ffres" yr un ystyr â "fresh poultry meat" yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Cig Dofednod;

(c) ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw ffowls domestig, tyrcwn, ieir gini, hwyaid a gwyddau;

(ch) ystyr "lladd-dy cig coch trwyddedig" ("*licensed red meat slaughterhouse*") yw lladd-dy sydd wedi'i drwyddedu o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau Cig Ffres;

(d) ystyr "lladd-dy cig dofednod trwyddedig" ("*licensed poultry meat slaughterhouse*") yw lladd-dy sydd wedi'i drwyddedu o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau Cig Dofednod;

(dd) ystyr "y Rheoliadau Cig Dofednod" ("*the Poultry Meat Regulations*") yw Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) 1995(**1**).

(e) ystyr "y Rheoliadau Cig Ffres" ("*the Fresh Meat Regulations*") yw Rheoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio)1995(**2**);

(f) ystyr "safle torri cig coch trwyddedig" ("*licensed red meat cutting plant*") yw lladd-dy sydd wedi'i drwyddedu o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau Cig Ffres;

(ff) ystyr "safle torri cig dofednod trwyddedig" ("*licensed poutry meat cutting plant*") yw safle torri sydd wedi'i drwyddedu o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau Cig Dofednod;

(g) ystyr "y swm penodedig" ("*the specified amount*")—

(i) yn achos unrhyw ladd-dy cig coch trwyddedig, yw 500 uned da byw;

(ii) yn achos unrhyw safle torri cig coch trwyddedig, yw 150 tunnell fetrig o gig coch ffres;

(iii) yn achos unrhyw ladd-dy cig dofednod trwyddedig, yw 200,000 o ddofednod; a

(iv) yn achos unrhyw safle torri cig dofednod trwyddedig, yw 150 tunnell fetrig o gig dofednod ffres; ac

(**1**) O.S. 1995/540, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/1763, O.S. 1995/2200, O.S. 1995/2148, O.S. 1995/3205, O.S. 1997/1729, O.S. 2000/656, O.S. 2000/2257 (Cy.150), O.S. 2001/343 (Cy.15) ac O.S. 2001/2198 (Cy.158).

(**2**) O.S. 1995/539, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/731, O.S. 1995/1763, O.S. 1995/2148, O.S. 1995/2200, O.S. 1995/3124, O.S. 1995/3189, O.S. 1996/1148, O.S. 1996/2235, O.S. 1997/1729, O.S. 1997/2074, O.S. 2000/656, O.S. 2000/2257 (Cy.150), O.S. 2001/343(Cy.15), 2001/1508 (Cy.105), 2001/1740 (Cy.123), 2001/1802 (Cy.131), 2001/2627 (Cy.216), O.S. 2001/3459 (Cy.279) ac O.S. 2002/129 (Cy.17).

(ng) mae i "uned da byw" yr un ystyr â "livestock unit" yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Cig Ffres.

(3) Ni fydd dim yn y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ladd-dy cig coch trwyddedig sy'n cael ei ddefnyddio i brosesu anifeiliaid buchol o dan y cynllun prynu a gyflwynwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 ac a fabwysiadodd fesurau cynnal eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion yn y Deyrnas Unedig(**3**)

(**3**) OJ Rhif L99, 20.4.96, t.14.